Beibl i Blant
yn cyflwyno

Byddin fach Gideon

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts

addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 15 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh







Mae'n debyg fod Gideon, un o'r Israeliaid, yn tyfu ŷd mewn lle cyfrinachol.

3



Roedd yn dyrnu ŷd mewn cafn gwasgu grawnwin o dan goeden fawr.

4



Doedd y Midianiaid ddim yn gwybod am y lle – ond roedd Duw yn gwybod! Anfonodd Angel at Gideon gyda neges.

5

Roedd Duw am i Gideon ddinistrio'r ddelw oedd gan ei dad o dduw ffug ac adeiladu allor i Dduw yn ei lle. Roedd gan Gideon ofn y byddai pobl yn ei ladd, ond bu'n ufudd i Dduw.



6

Roedd Duw hefyd am i Gideon arwain byddin Israel yn erbyn y Midianiaid drwg. Ond roedd gan Gideon ofn. Gofynnodd am arwydd arbennig i ddangos y byddai Duw gydag e. Gosododd swp o wlân ar y llawr.



7



"Os bydd gwlith ar y gwlân yn unig a'r ddaear o'i gwmpas yn sych, bydda i'n gwybod yn bendant wedyn dy fod ti'n mynd i achub Israel trwof fi, fel ti wedi addo".

8



Dyna oedd gweddi Gideon. Yn y bore, roedd y llawr yn sych, ond roedd Y GWLÂN YN WLYB SOCIAN.

9



Roedd Gideon yn dal i amau Duw. Gofynnodd wedyn ar i Dduw wneud y llawr yn wlyb, ond y gwlân yn sych. A'r bore wedyn – roedd y llawr yn wlyb, a'r GWLÂN YN SYCH!

10

Aeth Gideon allan gyda byddin o 32,000. Bu'n rhaid iddo dorri'r rhif i lawr i 300. Doedd Duw ddim am i Israel feddwl mai nhw oedd wedi ennill y frwydr. Duw, a dim ond Duw, fyddai'n achub Israel.



11

Roedd Duw yn gwybod fod Gideon yn ofni o hyd, felly gadawodd iddo glustfeinio ar filwr o fyddin Midian yn disgrifio breuddwyd a gafodd. Yn y freuddwyd gwelodd dorth o fara yn rholio yn erbyn un o bebyll Midian a'i dinistrio.



12



Dychrynodd y milwr arall. "Dyma … gleddyf Gideon …" meddai. Pan glywodd Gideon ystyr y freuddwyd, sylweddolodd fod Duw yn mynd i roi buddugoliaeth iddo.

13



Cynlluniodd Gideon i ymosod yn ystod y nos. Rhoddodd gorn hwrdd i bawb, a jar wag gyda fflam yn llosgi tu mewn iddi.

14

Dyma nhw'n sefyll mewn trefn o amgylch byddin Midian i gyd.



15

Ar ôl i Gideon roi arwydd, chwythodd y milwyr y cyrn, a torri'r jariau oedd ganddyn nhw. Am sŵn! Am ddryswch! Dychrynodd y Midianiaid a rhedeg i ffwrdd.



16

Ar ôl i Gideon ennill y fuddugoliaeth hon, gofynnodd pobl Israel iddo fod yn arweinydd.



17

"Fedra i ddim bod yn arweinydd i chi … Yr ARGLWYDD ydy'ch brenin chi," oedd ateb Gideon. Roedd yn gwybod mai dim ond Duw sydd â'r hawl i reoli bywydau pobl.



18

Byddin fach Gideon

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Barnwyr 6-8

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!